Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

| Bwrdd Sicrwydd Safonau Proffesiynol<br>Cylch Gorchwyl |
|---|

**1. CYFLWYNIAD**

Mae'r ddogfen hon yn diffinio'r cylch gorchwyl ar gyfer y Bwrdd Sicrwydd Safonau Proffesiynol (BSSP), ei aelodaeth a chyfrifoldebau'r aelodau.

**2. DIBEN Y BSSP**

Sefydlodd Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu, sydd â dyletswydd statudol a mandad etholiadol i ddal yr heddlu i gyfrif ar ran y cyhoedd.

Yn unol â Phrotocol Plismona 2011, mae gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ddyletswydd cyfreithiol i:-

*17(l) fonitro'r holl gwynion a wneir yn erbyn swyddogion a staff, gan fod yn gyfrifol am gwynion yn erbyn y Prif Gwnstabl hefyd.*

Mae'r Prif Gwnstabl yn gyfrifol i'r cyhoedd ac yn atebol i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu am:-

*21(ng) reoli'r holl gwynion yn erbyn yr heddlu, ei swyddogion a'i staff, heblaw mewn perthynas â'r Prif Gwnstabl, a sicrhau bod Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn cael ei hysbysu mewn ffordd a fydd yn ei alluogi i ryddhau ei rwymedigaethau statudol mewn perthynas â chwynion yn rheolaidd, ystyrlon ac amserol. Rhaid cyflwyno cwynion difrifol a materion ymddygiad i Gomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu, yn unol â deddfwriaeth.*

Y Bwrdd Sicrwydd Safonau Proffesiynol fydd y fforwm craffu ar gyfer yr holl swyddogaethau a gyflawnir gan Adran Safonau Proffesiynol yr Heddlu, a fydd yn galluogi Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu i ryddhau ei rwymedigaeth statudol yn unol â Phrotocol Plismona 2011.

**3. LLYWODRAETHU**

Bydd Aelodaeth y Bwrdd yn cynnwys:-

- Prif Weithredwr Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh)
- Dirprwy Brif Gwnstabl
- Pennaeth yr Adran Safonau Proffesiynol
- Uwch Reolwr yr Adran Safonau Proffesiynol
- Pennaeth Sicrwydd, SCHTh
- Gweithiwr Achos Ansawdd Gwasanaeth (SCHTh)

Caiff Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu wahodd swyddogion neu staff o Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu neu'r Gwasanaeth Heddlu i roi cyngor proffesiynol i'r Bwrdd.

**4. Amlder Cyfarfodydd**

Bydd y Bwrdd yn cwrdd bedair gwaith y flwyddyn, sef unwaith bob tri mis. Gellir galw cyfarfodydd ychwanegol os yw'r Comisiynydd a'r Dirprwy Brif Gwnstabl yn cytuno lle mae busnes brys i'w drafod.

**5. CYLCH GORCHWYL**

Bydd y Bwrdd Sicrwydd Safonau Proffesiynol yn:

1. Monitro a chraffu ar y modd y mae Heddlu Dyfed-Powys yn ymdrin â chwynion a honiadau am gamymddwyn, gyda golwg ar fodloni ei hun bod y trefniadau a'r prosesau mewn grym yn briodol ac effeithiol. Hysbysir craffu gan adroddiad dadansoddi sy'n cael ei baratoi'n benodol ar gyfer y cyfarfod chwarterol gan yr Adran Safonau Proffesiynol.

Mae hyn yn cynnwys:

- Goruchwyliaeth ar draws yr Heddlu o faterion perfformiad, materion camymddwyn a chwynion
- Perfformiad o ran amseroldeb trin cwynion
- Data gwrthlygredd (gan gynnwys data ar gydgysylltiadau adroddadwy)
- Gwaharddiadau/cyfyngiadau
- Nifer y cyfathrebiadau ysgrifenedig a gyhoeddwyd gan yr Heddlu o dan reoliad 13 Rheoliadau'r Heddlu (Cwynion a Chamymddwyn) 2020 lle nad yw ymchwiliad wedi'i gwblhau o fewn "cyfnod perthnasol"
- Achosion o ddiddordeb penodol
- Materion sydd wedi'u cyfeirio at Gomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu hyd yn hyn
- Canlyniadau unrhyw wrandawiadau/cyfarfodydd Camymddwyn (gan gynnwys dysgu a allai ddod ohonynt ar gyfer y sefydliad ehangach).
- Sicrwydd o gwmpas perfformiad fetio
- Gwybodaeth bellach sy'n bodloni gofynion Gorchymyn Cyrff Plismona Lleol Etholedig (Gwybodaeth Benodedig) (Diwygiad) 2021 (**Atodiad A**).

2. Monitro ac archwilio bod gan yr Heddlu fecanweithiau mewn grym ar gyfer nodi materion a gweithredu'n brydlon os yw problemau'n cael eu nodi. Bydd y BSSP yn sicrhau bod:-

- mecanweithiau mewn grym ar gyfer nodi themâu neu dueddiadau o ran cwynion a gweithredu arnynt
- yr Heddlu'n mesur bodlonrwydd achwynwyr
- systemau mewn grym ar gyfer monitro a gwella perfformiad o ran amseroldeb trin cwynion
- mecanweithiau sicrhau ansawdd mewn grym ar gyfer monitro a gwella ansawdd ymatebion i gwynion

3. Monitro a chraffu ar y diweddariadau am gynnydd o ran gweithredu argymhellion perthnasol a wnaed gan:-

- Gomisiwn Annibynnol Cwynion yr Heddlu a/neu AHGTAEF mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â safonau, neu lle na dderbyniwyd argymhellion, esboniad pam gan yr awdurdod lleol neu'r corff plismona lleol. Mewn perthynas â thrin cwynion, cynnwys argymhellion, dysgu sefydliadol a dysgu unigol.
- Ystyried materion hawliau dynol, cydraddoldeb ac amrywiaeth sy'n berthnasol ar gyfer busnes y Bwrdd.
- Sicrhau y cynhelir goruchwyliaeth a gwaith craffu perthnasol a phriodol o strategaethau, gweithdrefnau a pholisïau mewnol ac allanol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â statud, rheoliad, a phenderfyniadau a wnaed gan y Bwrdd.

4. Ystyried unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg neu broblemau sy'n deillio o waith hap samplu cwynion a gynhelir gan SCHTh.

**5. YR YSGRIFENYDDIAETH**

Bydd Gweithiwr Achos Ansawdd Gwasanaeth SCHTh yn gyfrifol am baratoi'r agenda ar gyfer y Bwrdd ac am gynnal cofnodion sy'n ymwneud â'r cyfarfodydd. Bydd agendâu cyfarfodydd yn cael eu rhannu bum diwrnod gwaith cyn y cyfarfod.

Bydd Pennaeth yr Adran Safonau Proffesiynol yn gyfrifol am baratoi'r adroddiad dadansoddi y cyfeirir ato uchod. Bydd hwn yn cael ei baratoi cyn y cyfarfod a'i rannu yn yr agenda.

**7. RHEOLI FERSIWN A DYDDIAD ADOLYGU**

| | |
|---|---|
| Fersiwn: | 2023-1 |
| Awdur: | Donna Cronin, Pennaeth Sicrwydd |
| Dyddiad cymeradwyo: | |
| Bwrdd cymeradwyo: | Y Bwrdd Plismona |
| Dyddiad adolygu: | |
| Adolygwyd gan: | |
| Cymeradwywyd gan: | |
| Dyddiad cymeradwyo: | |
| Dyddiad yr adolygiad nesaf: | |

**Atodiad A**

Cyhoeddi yn unol â Gorchymyn Cyrff Lleol Etholedig (Gwybodaeth Benodedig) (Diwygiad) 2011.

Mae gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ddyletswydd i gyhoeddi gwybodaeth mewn perthynas â'i ddyletswydd statudol yn unol â thrin cwynion. Bydd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu'n cyhoeddi'r wybodaeth ganlynol ar ei wefan:-

• Sut mae'r heddlu'n mesur bodlonrwydd achwynwyr

• Diweddariadau am gynnydd ynghylch gweithredu argymhellion perthnasol a wnaed gan Gomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu a/neu AHGTAEF mewn perthynas â thrin cwynion, neu, lle na dderbyniwyd argymhellion, esboniad pam

• Crynodeb o unrhyw fecanweithiau a roddwyd ar waith er mwyn nodi themâu neu dueddiadau o ran cwynion a gweithredu arnynt

• Crynodeb o systemau sydd wedi cael eu sefydlu er mwyn monitro a gwella perfformiad o ran amseroldeb trin cwynion

• Nifer yr ohebiaeth ysgrifenedig a gyhoeddwyd gan yr Heddlu o dan reoliad 13 Rheoliadau'r Heddlu (Cwynion a Chamymddwyn) 2020 lle nad yw ymchwiliad wedi'i gwblhau o fewn "cyfnod perthnasol"

• Systemau sicrhau ansawdd sydd ar waith er mwyn monitro a gwella ansawdd ei ymatebion i gwynion

• Manylion am y trefniadau gweinyddol y mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu wedi'u rhoi ar waith er mwyn dal y Prif Gwnstabl i gyfrif ar gyfer trin cwynion, e.e. amlder cyfarfodydd a chrynodeb o drafodaethau. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei chyhoeddi bob blwyddyn o fewn mis ar ôl i ddata Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu gael ei gyhoeddi

Dyddiad Adolygu: Mawrth 2026